

Mae un peth yn sicr

“Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a’ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle’r wyf fi.” (adn. 3)

Beth am ddarlenn Ioan 14:1–14 ac yna myfyrio

Yng nghysgod y groes, gallen ni fod wedi disgwyl i’r disgyblion roi cefnogaeth emosiynol ac ysbrydol i Iesu; yn lle hynny, mae e’n ei gynnig *iddyn nhw* ar ffurf yr addewid ogoneddus a ddarlennwn yn ein testun heddiw. Mae’n debyg bod y geiriau “fe ddof yn ôl” yn cyfeirio at ei atgyfodiad, fel maen nhw mewn manau eraill yn y sgysiaau ffarwél (e.e. 14:18, 28). Yn sicr, mae ei ‘fynd’ yn golygu mynd i’r groes. Ond mae hefyd yn golygu mynd at y Tad i ‘baratoi lle’ i’w bobl, ac felly y peth gorau yma ydy derbyn ei addewid fel addewid gadarn am ei ailddyfodiad.

Beth bynnag fydd ffurf teyrnas y dyfodol, mae’n cael ei pharatoi’n ofalus ac yn gariadus, ac mae lle ynddi i holl bobl ffyddlon Duw. Yn fwy na dim, mi fyddwn ni gyda Christ, a bydd hynny’n sicr yn wynfyd i ni i gyd – gwynfyd lle na fydd unrhyw gysgod yn disgyn. Ei ymddangosiad wedi ei farwolaeth, yn atgyfodedig ac yn fyw, ydy’r unig ernes sydd ei hangen arnom o’r gobraith yma.

Mae yna hyd yn oed gysur mawr yn y ffaith bod Iesu wedi dweud: “pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyech fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi?” Fyddai gonestrwydd ein Harglwydd ddim wedi caniatáu iddo guddio unrhyw beth oddi wrthym – roedd yn rhaid iddo ddweud y gwir yn syml ynglŷn â beth fyddai’n digwydd yn y dyfodol. Mae’n gwybod am ein dyhead am sicrwydd ynglŷn â’r dyfodol cuddiedig. Efallai fod gennym ddisgwyliadau amrywiol ynglŷn â gogoniant y byd newydd sydd i ddod – rhai’n fwy eglur nag eraill. Ond gallwn i gyd roi gorffwys i’n calonau gofidus a hoelio’n sylw ar y sicrwydd cadarn yma: mae Iesu wedi addo dychwelyd!

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

1 Cor. 1:1–9; 1 Thes. 4:15–5: 11; Heb. 9:24–28

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Yn ôl Paul, sut ddylai Cristnogion aros am ail ddyfodiad yr Arglwydd?
2. Yn ôl Hebreaid, beth ydy’r gwahaniaeth rhwng ail ddyfodiad Iesu a’i ddyfodiad cyntaf?

Gweddi

Feistr grasol, alla i ddim dibynnu ar air rhai, ond dydy hyn ddim yn wir amdanat ti. Dw i’n sicr dy fod yn dweud y gwir ym mhob amgylchiad. Mi ddywedaist dy fod yn dod yn ôl. Dw i’n credu hynny. Dw i’n derbyn hynny. A dw i’n aros yn ddisgwylgar. Amen.